

Tasg 2

Yn y gofod

Mewn grŵp o 4, rydych chi'n mynd i chwarae rôl ffantasi.

Dyma'r stori:

Partner 1 a 2:

Rydych chi'n teithio mewn llong ofod.

Yn sydyn, mae problem gyda'r llong ofod a rhaid i chi lanio ar blaned.

Ar y blaned, rydych chi'n dod allan o'r llong ofod ac rydych chi'n gweld 2 aliwn. Sut maen nhw'n edrych? Beth maen nhw'n gwisgo? Dim ond Cymraeg maen nhw'n siarad!

Partner 3 a 4:

Chi ydy'r ddau aliwn ar y blaned.

Pwy ydych chi? Sut ydych chi'n byw ar y blaned? Beth ydych chi'n gwneud yno?

Ydych chi'n hapus i weld Partner 1 a 2?

1. Meddyliwch am y stori – yn Gymraeg!
2. Ysgrifennwch y ddeialog – yn Gymraeg!
Defnyddiwch yr iaith rydych chi'n gwybod.
3. Actiwch y deialogau o flaen grwpiau eraill.

Dychmygwch ... dychmygwch ... dychmygwch ... a mwynhewch!

Geirfa

aliwn	alien	dychmygu	(to) imagine
-------	-------	----------	--------------